O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2009 Rhif 1915 (Cy.174)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Rheoli) (Cymru) 2009

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i dai amlfeddiannaeth (fel y'u diffinnir yn adrannau 254 i 259 o Ddeddf Tai 2004) yng Nghymru.

O dan Reoliadau Rheoli Tai Amlfeddiannaeth (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006"), sy'n gymwys o ran bob tŷ amlfeddiannaeth ac eithrio'r rheini y mae adran 257 (tai amlfeddiannaeth: blociau o fflatiau penodol a droswyd) o Ddeddf Tai 2004 yn gymwys, mae'n ofynnol i reolwr tŷ amlfeddiannaeth gyflawni dyletswyddau penodol o ran rheoli'r tŷ amlfeddiannaeth. Un o'r dyletswyddau hynny yw rhoi i'r awdurdod tai lleol o fewn 7 o ddiwrnodau ar ôl derbyn cais ysgrifenedig oddi wrth yr awdurdod dystysgrif brawf cyfarpar nwy ddiweddaraf y mae'r rheolwr wedi ei chael ynghylch rhoi unrhyw gyfarpar nwy drwy brawf gan "beiriannydd cydnabyddedig" yn y tŷ amlfeddiannaeth. O dan Reoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth (Darpariaethau Ychwanegol) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007") mae'r un ddyletswydd yn gymwys o ran rheolwyr tai amlfeddiannaeth y mae adran 257 o Ddeddf Tai 2004 yn gymwys iddynt.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli'r diffiniad o "peiriannydd cydnabyddedig" yn Rheoliadau 2006 a Rheoliadau 2007. Mae'r diffiniad newydd yn cyfeirio at beiriannydd a gymeradwywyd o dan reoliad 3 o Reoliadau Diogelwch Nwy (Gosodiadau a Defnydd) 1998.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2009 Rhif 1915 (Cy. 174)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Rheoli) (Cymru) 2009

Gwnaed *16 Gorffennaf 2009*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru

20 Gorffennaf 2009

Yn dod i rym *10 Awst 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 234 o Ddeddf Tai 2004(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Rheoli) (Cymru) 2009, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 10 Awst 2009.

Diwygio Rheoliadau Rheoli Tai Amlfeddiannaeth (Cymru) 2006

2.—(1) Diwygier Rheoliadau Rheoli Tai Amlfeddiannaeth (Cymru) 2006(**3**) yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn rheoliad 6 (dyletswydd rheolwr i gyflenwi a chynnal a chadw nwy a thrydan) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Ym mharagraff (1), ystyr "peiriannydd cydnabyddedig" ("*recognised engineer*") yw peiriannydd a gymeradwywyd o dan reoliad 3 o

(**1**) 2004 p.34.
(**2**) Mae'r pwerau a roddir gan adran 234 o Ddeddf 2004 wedi'u breinio o ran Cymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. *Gweler* y diffiniad o "appropriate national authority" yn adran 261(1) o Ddeddf 2004. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) O.S. 2006/1713 (Cy.175).

Reoliadau Diogelwch Nwy (Gosodiadau a Defnydd) 1998(**1**).".

Diwygio Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth (Darpariaethau Ychwanegol) (Cymru) 2007

3.—(1) Diwygier Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth (Darpariaethau Ychwanegol) (Cymru) 2007(**2**) yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn rheoliad 7 (dyletswydd rheolwr i gyflenwi a chynnal a chadw nwy a thrydan) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Ym mharagraff (1), ystyr "peiriannydd cydnabyddedig" ("*recognised engineer*") yw peiriannydd a gymeradwywyd o dan reoliad 3 o Reoliadau Diogelwch Nwy (Gosodiadau a Defnydd) 1998.".

Jocelyn Davies

Y Dirprwy Weinidog dros Dai o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

16 Gorffennaf 2009

(**1**) O.S. 1998/2451.
(**2**) O.S. 2007/3229 (Cy.281).